

Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y Cyfarfod	9 Mai 2023
Swyddog Arweiniol	Lisa Jones, Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl
Awdur yr Adroddiad	Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Teitl	Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol a Phenodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ar faterion yn ymwneud â phwyllgorau.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Gan fod blwyddyn y cyngor newydd yn dechrau ym mis Mai mae'n briodol i'r Cyngor ystyried newidiadau yn y cydbwysedd gwleidyddol yn unol â gofynion statudol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn ystyried y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer dyrannu seddi pwyllgor

4. Manylion yr adroddiad

Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol

4.1. Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Rheoliadau cefnogol yn gwneud darpariaeth ar gyfer cydbwysedd gwleidyddol yn aelodaeth y Cyngor i gael ei

adlewyrchu yn yr aelodaeth o bwyllgorau'r Cyngor (er nad yw'r Cabinet wedi ei gynnwys yn y gofyniad hwn o'r Ddeddf).

4.2. Mae aelodau'r Cyngor wedi eu rhannu yn grwpiau gwleidyddol gwahanol, gyda grŵp yn ddau neu fwy o gynghorwyr sydd yn arwyddo hysbysiad i'r awdurdod yn datgan eu bod yn dymuno cael eu cofnodi fel bod yn aelod o grŵp penodol. Mae rhwymedigaeth ar y Cyngor i sicrhau fod y nifer o seddi ar bwyllgorau penodol (y rheiny wedi'u hadnabod yn ôl statud) wedi eu dyrannu i bob grŵp gwleidyddol yn yr un gyfran â'r nifer o aelodau ym mhob grŵp o aelodaeth y Cyngor. Er enghraifft, os yw aelodaeth Grŵp A yn cynrychioli traean o aelodau'r Cyngor, byddai Grŵp A yn cael traean o'r seddi ar y pwyllgorau sydd yn gorfod cael cydbwysedd gwleidyddol. Mae modd rhoi'r gofyniad i un ochr ar yr amod na fydd aelod o'r Cyngor yn pleidleisio yn erbyn gwneud hynny.

4.3. Mae'r Cyngor angen ystyried o leiaf yn flynyddol sut y mae aelodaeth ei bwyllgorau yn berthnasol i faint y grwpiau. Dangosir ffigurau cydbwysedd gwleidyddol ac aelodaeth y grwpiau cyfredol yn atodiadau 1 a 2 yn y drefn honno.

Penodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu

4.6 Mae'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn darparu'r egwyddorion ar gyfer dyrannu cadeiryddion Craffu.

4.7 Rhennir cyfanswm aelodaeth y grŵp neu grwpiau ar y Cabinet â chyfanswm aelodaeth y Cyngor a lluosir y nifer hwn â nifer y pwyllgorau Craffu (sef 3). Mae'r ffigur, os nad yw'n rhif cyfan, yn cael ei dalgrynnu i lawr.

4.8 Byddai gweddill swyddi Cadeiryddion Craffu'n cael eu rhoi i'r grwpiau nad ydynt yn rhai Cabinet ac yn cael eu dyrannu drwy ddefnyddio cyfran pob grŵp (sydd ddim ar Cabinet) i gyfanswm nifer yr aelodau nad ydynt yn aelodau Cabinet.

4.9 Nid yw'r Mesur na'r canllawiau statudol cysylltiedig yn gwneud darpariaethau ar gyfer newid neu ail-benodi cadeiryddion craffu, ac eithrio pan fo'r cyfansoddiad gwleidyddol yn newid yn y Cabinet neu lle mae swydd cadeirydd craffu yn wag am ryw reswm. Felly mae penodi cadeiryddion am flwyddyn ddinesig newydd yn fater i'r grwpiau gwleidyddol i'w ystyried ac i roi gwybod am unrhyw newidiadau.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae trefniadau cydbwysedd gwleidyddol yn ganolog i'r systemau democrataidd a phwyllgorau sy'n elfennau hanfodol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau a nodwyd yn codi o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn i gynnal adolygiad blynyddol o ddyraniad seddi pwyllgor yn unol â gofynion cydbwysedd gwleidyddol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorir â'r Cyngor a'r grwpiau gwleidyddol yn y Cyngor ar y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Byddai methu ag adolygu aelodaeth pwyllgorau, llenwi swyddi gwag ac ati, yn niweidiol i drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac yn mynd yn groes i ofynion statudol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989; Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;
Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972.